OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 1735 (Cy.165)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2002

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *4 Gorffennaf 2002* |
| *Yn dod i rym* | - - | *23 Gorffennaf 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 55(2), (4) a (6) a 143(1) a (2) o, a pharagraffau 10 i 12 o Atodlen 7A i, Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau ag y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**).

**Enw, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 23 Gorffennaf 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Diwygio Rheoliadau 1993**

**2.** Caiff Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) 1993(**3**) eu diwygio yn unol â darpariaethau canlynol y Rheoliadau hyn.

**Yr amgylchiadau ar gyfer gwneud cynigion**

**3.** Yn rheoliad 4A—

(a) ym mharagraff (1), ar ôl is-baragraff (b) mewnosodwch—

"(bb) the rateable value shown in the list for a hereditament is inaccurate by reason of an amendment to the classes of plant and machinery set out in the Schedule to the Valuation for Rating (Plant and Machinery) (Wales) Regulations 2000(**4**)

(**1**) 1988 p.41.
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1993/291; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1994/1809, 1995/609, 1995/623, 2000/792 (Cy. 29) a 2001/1203 (Cy .64).
(**4**) O.S. 2000/1097 (Cy.75) fel y 'i diwygiwyd gan O.S. 2001/2357 (Cy. 195).

which comes into force on or after the day on which the list was compiled;"; a

(b) ym mharagraff (4)—

(i) yn lle "either of the grounds set out in sub-paragraph (c) or (e)" rhowch "any of the grounds set out in sub-paragraph (bb), (c) or (e)"; a

(ii) yn lle "the alteration in question" rhowch "the alteration or amendment in question".

**Y cyfnodau ar gyfer gwneud cynigion: rhestr 2000 a rhestrau sy'n dilyn**

**4.** Yn lle rheoliad 4C(2), rhowch—

"(2) A proposal on the ground set out in regulation 4A(1)(c) may only be made within six months of either the date of the alteration or the day on which the next list is compiled, whichever is the later.".

**Yr amser pan fo'r addasiad i gael effaith: cyffredinol**

**5.**—(1) Ar ôl rheoliad 13A(4), mewnosodwch—

"(4A) An alteration made to show in or, as the case may be, to delete from a list any hereditament which, before the list was compiled, came into existence or ceased to exist as a consequence of—

(a) property previously rated as a single hereditament becoming liable to be rated in parts, or

(b) property previously rated in parts becoming liable to be rated as a single hereditament, or

(c) any part of a hereditament becoming part of a different hereditament,

shall have effect from the day the list was compiled."

(2) Yn rheoliad 13A(13)—

(a) yn lle "an alteration made" rhowch "where an alteration is made";

(b) yn lle "shall have effect" rhowch "then"; ac

(c) yn lle is-baragraff (a), rhowch y canlynol—

"(a) where the alteration is made in pursuance of a proposal, it shall have effect as follows—

(i) if the proposal is served on the valuation officer within 6 months of the date of the previous alteration, from the date on which the previous alteration fell to have effect;

(ii) if the proposal is served on the valuation officer after 6 months from the date of the previous alteration but on or before 30th September 2002, from the date on which the previous alteration fell to have effect or 1st April 2001 whichever is the later;

(iii) if the proposal is served on the valuation officer after 6 months from the date of the previous alteration and after 30th September 2002, from the date on which the previous alteration fell to have effect or the first day of the financial year in which the proposal is served, whichever is the later; or";

(ch) yn is-baragraff (b), yn lle "in any other case, from that day" rhowch "where the alteration is not made in pursuance of a proposal, the alteration shall have effect from the date on which the previous alteration fell to have effect".

(3) Ar ôl is-baragraff (13), mewnosodwch y paragraff canlynol—

"(13A) Subject to paragraph (14), an alteration made to correct an inaccuracy in a list (other than an alteration which falls to take effect as provided in the foregoing provisions of this regulation) shall have effect from the day on which the list became inaccurate.".

**Apelau ynghylch ardystiad**

**6.** Yn rheoliad 30(2), yn lle "six months" rhowch "a year".

**Apelau**

**7.** Ym mharagraff (a) o'r diffiniad o apêl yn rheoliad 2(1) ac yn rheoliadau 2(3)(a), 34(5), 38(1)(b), 40(12), 44(2) a 47(1), ar ôl "Regulations 1994" mewnosodwch "or under regulation 12 of the Non-Domestic Rating (Chargeable Amounts) (Wales) Regulations 1999(**5**)".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

4 Gorffennaf 2002

(**5**) O.S. 1999/3454 (Cy. 51).
(**6**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) 1993 yn rheoli newid rhestri ardrethu annomestig. Maent yn darparu ar gyfer newid rhestri gan swyddogion prisio, cynigion i newid gan bersonau eraill ac apelau i dribiwnlysoedd prisio lle ceir anghytundeb rhwng cynnig gan swyddog prisio a'r cynigydd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1993 mewn perthynas â Chymru—

(a) i gynnwys sail newydd ar gyfer gwneud cynnig i newid rhestr (rheoliad 3);

(b) i ymestyn y cyfnod pryd y gellir gwneud cynnig o dan reoliad 4A(1)(c) (cynnig i addasu gwerth trethiannol pan fo'r gwerth sy'n cael ei ddangos yn y rhestr yn anghywir o ganlyniad i newid blaenorol a wnaed gan swyddog prisio) (rheoliad 4);

(c) i ddiwygio rheoliad 13A (sy'n darparu ar gyfer y dyddiad pan gaiff newid, os yw'n llwyddiannus, effaith yn y rhestr ardrethu) (rheoliad 5);

(ch) ymestyn y cyfnod pryd y gellir gwneud apêl yn erbyn ardystiad (rheoliad 6); a

(d) gwneud mân newidiadau eraill (rheoliad 7).